Eisteddfod yr Urdd
SIR CONWY
26 – 31 Mai 2008
Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru

Datganiad i'r Wasg / Press Release

26 Mai 2008

Sicrhau Eisteddfod Gynaliadwy

Heddiw, cyhoeddwyd adroddiad ar iechyd cynaliadwyedd Eisteddfod Urdd Gobaith Cymru.

Paratowyd yr adroddiad gan Synnwyr Busnes - Business Sense (SBBS), sef gwasanaeth cefnogi busnes arbenigol ar ddatblygu cynaliadwy, wedi ei leoli ym Mhrifysgol Bangor. Eu nod yw cynorthwyo cwmnïau i ddeall a gwireddu'r buddion sy'n deillio o feddwl a gweithredu mewn ffyrdd cynaliadwy.

Aeth Synnwyr Busnes – Business Sense i'r afael â 13 elfen o gynaliadwyedd, gan gynnwys trafnidiaeth, defnydd ac effeithlonrwydd egni, rheoli gwastraff, dwr ac elifiant, rheolaeth tir ac adeiladau, bioamrywiaeth, rheolaeth amgylcheddol, rheoli risg, economeg a busnes a datblygu pobl a'r gweithle. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r adroddiad yn nodi fod perfformiad yr Urdd wedi gwella mewn perthynas â naw o'r elfennau hyn.

Ymhellach, nodwyd fod yr Eisteddfod yn gwneud cyfraniad hynod o bwysig i ddiwylliant Cymru a ffyniant yr iaith Gymraeg, ac yn dod â bwrlwm i'r ardal sy'n ei gynnal. Mae'r Urdd yn barod iawn i gydweithio a rhannu arfer da gyda chyrff eraill. Nodir ei bod yn annhebygol bod Cymru gyfan yn ymwybodol o fanylion yr holl weithgareddau cymdeithasol y mae'r Eisteddfod yn ymwneud â nhw, nac yn ymwybodol o'i lawn werth.

Ychwanegir, trwy ei chyfraniad unigryw i ddiwylliant Cymru, ac ymdrechion mwy diweddar yr Urdd i bwysleisio difrifoldeb materion megis newid hinsawdd, mae'r Eisteddfod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol iawn i ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae'n bwysig fod yr Urdd yn parhau i integreiddio ei weledigaeth mewn perthynas â'r tri dimensiwn o gynaliadwyedd – sef cymdeithas, yr amgylchedd a'r economi, ac yn ei ddefnyddio fel arf marchnata. Dangosa canlyniad yr arolwg fod gan y rheolwyr ddealltwriaeth drylwyr a chynyddol o faterion cynaliadwyedd, a bod gweithredu wedi digwydd ar y mwyafrif o'r materion perthnasol a drafodwyd yn ystod y gwerthusiad.

Cyfarwyddwr Aled Siôn
Swyddfa Eisteddfod y Gogledd
Gwersyll yr Urdd, Glan-llyn
Llanuwchllyn, Y Bala
Gwynedd LL23 7ST
Ffôn 01678 541012
Ffacs 01678 540514
E-bost Aledsion@urdd.org

Swyddfa Eisteddfod y De
Adran yr Eisteddfod, Urdd Gobaith Cymru
Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute
Bae Caerdydd, Caerdydd CF10 5AL
Ffôn 029 2063 5690
Ffacs 029 2063 5699
E-bost Irfon@urdd.org

Swyddfa Eisteddfod y Gogledd
Gwersyll yr Urdd, Glan-llyn
Llanuwchllyn, Y Bala
Gwynedd LL23 7ST
Ffôn 01678 541012
Ffacs 01678 540514
E-bost Sheelagh@urdd.org

Llinell ymholiadau: 0845 257 1613
Llinell docynnau: 0845 257 1639

Cadeirydd: Carol Davies, Prif Weithredwr: Eta Gruffudd Jones, Dirprwy Prif Weithredwr: Mai Parry Roberts
Cwmni Urdd Gobaith Cymru (Corfforedig), Rhif Cwmni: 263930. Cwmni Cyfyngedig. Cofrestrwyd yng Nghymru.
Elusen Gofrestredig Rhif 524481

urdd.org

Nodwyd fod angen i Eisteddfod yr Urdd rhoi sylw manylach i faterion yn ymwneud â threuliant egni ac allyriadau deuocsid carbon. Yr allyriadau sy'n deillio o losgi tanwydd disel mewn generaduron ar y maes yw un o effeithiau amgylcheddol mwyaf yr Eisteddfod. Fe fydd angen i'r Eisteddfod ffurfioli polisïau egni a gosod targedau pendant ar gyfer lleihau, neu o leiaf sefydlogi, treuliant ac allyriadau deuocsid carbon. Bydd hyn yn golygu addysgu, rheoli disgwyliadau a chydweithio â'r stondinwyr sydd yn dod i'r maes.

Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion i'r Urdd ystyried gweithredu arnynt yn y dyfodol. Mae'r argymhellion yn cynnwys ystyried mabwysiadu polisïau masnach deg, bod yn ymwybodol o ddatblygiadau mewn perthynas a thanwyddau 'gwyrdd', sicrhau bod y mudiad yn prynu nwyddau sydd yn cael effeithiau lleiaf negyddol ar yr amgylchedd, annog cwsmeriaid i ddefnyddio llai o egni.

Dywedodd Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru,

"Rydym yn ddiolchgar i Synnwyr Busnes- Business Sense am wneud yr asesiad hwn ar ein rhan. Mae sicrhau bod yr Urdd yn gallu datblygu'n gynaliadwy i'r dyfodol wrth galon ein gwaith. Byddwn yn mynd ati i ystyried yr argymhellion a'u gweithredu wrth i ni baratoi ar gyfer Eisteddfodau'r dyfodol.

Roeddwn yn falch o weld fod yr Eisteddfod wedi cael ei farcio'n uchel ar lawer o'r dangosyddion, ond yn deall fod angen i ni wneud ymdrech arbennig er mwyn sicrhau bod unrhyw asesiad yn y dyfodol yn dangos marc uchel ar gyfer pob dangosydd. Mae hyn yn sialens fawr i ŵyl deithiol debyg i Eisteddfod yr Urdd, ond rydym yn awyddus i'w wynebu'n hyderus. Mae gweithredu yn amgylcheddol sensitif ac yn gynaliadwy yn bwysig i'n haelodau gan mai eu dyfodol hwy rydym yn ei warchod."

Meddai Ieuan Wyn Jones, Dirprwy Brif Weinidog Cymru: "Mae datblygu cynaliadwy a'r amgylchedd yn bwnc sy'n gynyddol bwysig i bobl ar draws Cymru, a phobl ifanc yn enwedig. Mae'n dda gweld fod yr Urdd, un o brif fudiadau Cymru ar gyfer pobl ifanc, yn meddwl am hyn ac yn cymryd camau positif i weithredu."

Dywedodd Gruffudd Edwards, Synnwyr Busnes – Business Sense,
"Mae canolbwyntio ar ystyriaethau amgylcheddol yn unig yn gamgymeriad. Mae'n amlwg o'r adroddiad hwn bod cyfraniad yr Urdd i gynaliadwyedd yn ei ystyr ehangach yn enfawr. Wrth gwrs mae lle i wella ar drafnidiaeth ac ynni ond mae hynny'n her i gymdeithas gyfan nid yn unig i'r Urdd"

- diwedd -

Cyswllt y wasg: **Siân Eleri Davies: 07976 330360** **Manon Llwyd: 07976 330361**

EISTEDDFOD YR URDD

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw'r ŵyl ieuenctid mwyaf yn Ewrop.
Bydd 40,000 o bobl ifanc yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.
Ar lwyfan yr Eisteddfod y gwnaeth sêr fel Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi a Daniel Evans fwrw eu prentisiaeth.
Mae'r Eisteddfod yn denu 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
Mae'r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda'r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
Cynhelir Eisteddfod 2009 yng Nghanolfan y Mileniwm, Bae Caerdydd ac Eisteddfod 2010 yng Ngheredigion.